Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin

Cylchlythyr

Hydref 2020

Annwyl Aelodau,

Gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd yn cadw'n iach a diogel.

Fel y gwyddom, daeth holl weithgarwrch Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin i ben dros dro. Yn dilyn ein Cynhadledd boblogaidd ym mis Chwefror a'n cyd-gyfarfod gyda Chymdeithas Hanes Talacharn ym Mawrth, gohiriwyd pob darlith ac ymweliad.

Er mwyn darparu gwasanaeth mor llawn â phosibl i'n haelodau yn ystod y cyfnod clo, bydd rhifyn nesaf y *Carmarthenshire Antiquary* yn ymddangos cyn diwedd y flwyddyn, a diolchwn i'r cyfranwyr ac i'r Golygydd, Heather James am gyfrol gyfoethog arall am hanes, archaeoleg a llên gwerin Sir Gâr. Bydd *Antiquary* 56 yn cynnwys teyrngedau i'n cyn-Lywydd, y diweddar Barchedig J. Towyn Jones, ac mae'n dda gwybod fod y paratoadau ar gyfer cyhoeddi *Antiquary* 57 yn 2021 eisoes ar y gweill.

Mae'n bleser datgan mai'n Llywydd newydd yw Thomas Lloyd, OBE, DL, FSA, Herodr Cymru. Bu Tom yn aelod gwerthfawr o Gymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin ers sawl blwyddyn a gwyddom am ei waith gydag adeiladau hanesyddol a threftadaeth yn gyffredinol. Wedi cyhoeddi *The Lost Houses of Wales*, ymchwiliodd a chyd-gyhoeddodd y ddwy gyfrol ar dde-orllewin Cymru yng nghyfres Pevsner. Bu'n Gadeirydd Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru, Ymddiriedolaeth yr Adeiladau Dan Fygythiad a'r Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi, a bu'n Gyfarwyddwr Bwrdd Twristiaeth Cymru. Fe'i penodwyd yn Herodr Cymru yn 2011.

Ein Llywydd Thomas Lloyd yn ymwisgo ar gyfer Agoriad Swyddogol Senedd San Steffan.

Bu Cyngor y Gymdeithas yn cyfarfod yn gyson drwy Zoom er mwyn cadw golwg ar y sefyllfa a threfnu ailafael yn ein gweithgarwch pan ddaw'r amser. Bwriadwn gynnal llawer o'r cyfarfodydd a ohiriwyd eleni y flwyddyn nesaf, ac yn y *Cylchlythyr* hwn cewch raglen arfaethedig 2021, gan gynnwys ein Cyfarfod Cyffredinol yn Ebrill.

Mae ein His-bwyllgor Cyllid ac Aelodaeth wrthi'n diweddaru'n rhestr o gyfeiriadau ebyst Aelodau er mwyn cadw mewn cyswllt ynghylch trefniadau ac achlysuron y dyfodol. Cewch fwy o wybodaeth am hynny yn y *Cylchlythyr* hwn; mae diogelwch data'n Haelodau o bwysigrwydd mawr i'r Gymdeithas.

Y Cadfridog Syr Thomas Picton - portread gan Sir Martin Shee a gyflwynwyd i Sir Gaerfyrddin gan y Parch. Edward Picton yn deyrnged i'w frawd.

Yn unol â mudiad Mae Bywydau Du o Bwys a'r ddadl ynghylch cofgolofnau, mae'n gwefan yn cynnwys gwerthfawrogiad llawn gan Dylan Rees o fywyd a gweithgarwch y Cadfridog Syr Thomas Picton, ac erthygl ar 'The Waterloo Frieze' gan Edna Dale-Jones. Hefyd ar y wefan mae ffilm a gynhyrchwyd gan y diweddar Richard Dynevor, ac yn y *Cylchlythyr* hwn mae cyflwyniad i'r ffilm gan Roy Davies. Am fwy o wybodaeth gyfredol, ewch i wefan Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin (carmants.org.uk) a'n cyfrifion ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gyda diolch am eich cefnogaeth gyson i'r Gymdeithas, a chyda'n dymuniadau gorau,

Jeremy John (Cadeirydd)
Eurig Davies (Is-gadeirydd)

****

Richard Rhys: 'The Airy Tomb'

Roedd y diweddar Richard Rhys, 9fed Arglwydd Dynevor, yn gefnogwr brwd o'n Cymdeithas, yn aelod o'r Cyngor ac yn Is-lywydd. Yn fwy na hynny, roedd ei gyfraniad i fywyd diwylliannol Cymru yn fawr. Yn y 1950au, sefydlodd Grŵp Theatr Merlin a fu'n teithio Cymru yn llwyfannu dramâu gan Saunders Lewis a Gwyn Thomas, yn ogystal â rhoi'i gyfle theatrig cyntaf i Anthony Hopkins. Wedi etifeddu'r arglwyddiaeth a'r ystâd, canolbwyntiodd ar droi y Drenewydd yn Ninefwr yn ganolfan gelfyddydau o'r radd flaenaf lle byddai enwogion megis Syr Geraint Evans, John Ogden a Johnny Dankworth yn perfformio, tra arddangoswyd gwaith Ernest Zobole yn y tŷ.

Ni chafodd y fenter y llwyddiant hir-dymor a haeddai, a phan werthwyd y tŷ a'r ystâd, trodd Richard ei sylw i gyhoeddi. Cynhyrchodd ei wasg, Black Raven Press, weithiau arwyddocaol megis *The Taliesin Tradition* gan Emyr Humphreys, *When was Wales?* gan Gwyn Alf Williams a *The Son of Prophecy: Henry Tudor's Road to Bosworth* gan y diweddar David Rees, cymwynaswr ac aelod o'r Gymdeithas.

Yn ogystal, roedd gan Richard ddiddordeb mawr yn y sinema a chynhyrchodd ffilm fer a gyfarwyddwyd gan ei gyfaill oes Emyr Humphreys. Y testun oedd cerdd R.S. Thomas 'The Airy Tomb' ac fe'i ffilmiwyd ym mynyddoedd Cambria ac ar ystadau Dynevor mewn du a gwyn. Er ei bod bellach yn 60 oed, erys yn waith trawiadol a dwys. Rydyn ni'n ddiolchgar i ferch Richard, sef Sarah Rhys yr arlunydd am dynnu fy sylw at ryddhau'r ffilm ar wefan y Sefydliad Ffilm Prydeinig, a gellir edrych arni am ddim. Mae'n atgof byw o fywyd gŵr a oedd, yn ôl y diweddar hanesydd Dr John Davies, 'y mwyaf diddorol o holl arglwyddi Dynevor.'

Dolen we i'r ffilm:
https://player.bfi.org.uk/free/film/watch-the-airy-tomb-1963-online

Roy Davies

GALW'N HAELODAU!

AELODAETH:

Annwyl Aelod,

Er mwyn cyfathebu yn effeithiol ac yn effeithlon gydag Aelodau Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin, **gofynnwn i chi anfon eich cyfeiriad ebost atom**.

Gan gydymffurfio â Pholisi Diogelu Data'r Gymdeithas (a welir ar ein gwefan carmants.org.uk) ymgymerwn i ddefnyddio'ch manylion personol yn unig i gyfathrebu â chi ynglŷn â'r Gymdeithas: tanysgrifiadau, digwyddiadau, cyfarfodydd, cyhoeddiadau a materion tebyg. Ni rennir eich manylion personol â neb arall.

Tybed a fedrech ymateb drwy anfon ebost atom gan ddefnyddio'r cyfeiriad neilltuol hwn: Carmantiquarians@gmail.com

Gyda diolch,

Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin

COFEB PICTON: CYD-DESTUN HANESYDDOL

Mewn canrif enwog am ei gwladgarwch Prydeinig, codwyd cofeb i Syr Thomas Picton yng Nghaerfyrddin oherwydd ei eni yng ngorllewin Cymru a'i ystyried yn ymladdwr dewr dros Brydain ym Mrwydr Waterloo yn 1815. Yno y trechwyd Napoleon yn derfynol a lladdwyd Syr Thomas.

Gyda'r frwydr honno daeth ugain mlynedd o ryfela â Ffrainc i ben, pan fu Prydain yn cynghreirio gyda phrif wledydd Ewrop i drechu Ffrainc ac atal Napoloeon rhag gorchfygu'r cyfandir cyfan. Codwyd y gofeb gyntaf yng Nghaerfyrddin yn 1825 gan ailddefnyddio dyluniad gan John Nash, ond profodd yn gerflun anodd i'w gynnal a'i gadw, ac fe'i disodlwyd gan yr obelisg presennol yn 1847.

Ar y pryd, ystyrid bod Ffrainc yn fygythiad mawr i Brydain, a dyna'r rheswm dros godi caerau drud o gwmpas Aberdaugleddau yn y 1850au er mwyn amddiffyn canolfan y llynges yn Noc Penfro rhag ymosodiad Ffrengig.

Robert Evans

Ewch i'n gwefan (carmants.org.uk) am erthyglau llawn am fywyd Syr Thomas Picton, 'The Waterloo Frieze' a phob gwybodaeth gyfredol am y Gymdeithas.

Rhaglen Arfaethedig 2021 - Drafft

Dyma fraslun cynnar o raglen arfaethedig y flwyddyn nesaf. Mae'n debygol y bydd newidiadau wrth i reoliadau Covid 19 ddatblygu. Gall y digwyddiadau, felly, fod yn 'fyw' neu ar Zoom. Dosberthir y rhaglen 'derfynol' yn Rhagfyr gyda'r *Antiquary* nesaf.

Mis	Digwyddiad	Trefnydd
2 Mawrth 7.30 pm	**Cyd-gyfarfod gyda Cymdeithas Hanes Talacharn: Heather James - 'Carmarthenshire Shipwrecks'**	Peter Stopp
Ebrill	**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Y Llywydd Tom Lloyd -**	Menna Owen-Strong
Mai	**Tro drwy Lanelli**	
Mehefin	**Abereiddi**	Jeremy John
Gorffennaf	**Parc Dinefwr**	
Awst	**Garn Goch**	Heather James
Medi	**Ymweliad**	Jeremy/Mary
Hydref	**Wyn James - 'Emynywr Sir Gâr'**	Heather James
Tachwedd	**Cynhadledd: Portreadau** (Mae Mary and Menna yn barod i ymgymryd â'r trefniadau)	Tom Lloyd
Rhagfyr	**Cinio'r Llywydd**	Tom Lloyd